

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Mr R J Davies (Llanfair) a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mrs Ann Davies, un a fu'n weithgar iawn ac yn ffyddlon i'w Harglwydd ar hyd y blynyddoedd. Hyderwn y bydd y teulu oll yn adnabod heddwch a thangnefedd Duw yn ystod y dyddiau hyn.
- Danfonwn ein cofion hefyd at Gwenfyl Williams (Llanefydd) ac Elfed Davies (Saron), y ddau ohonynt yn Ysbyty Glan Clwyd; at Thomas Evans (Llanfair) yn Ysbyty Llanelwy; ac at William Jones (Llanefydd) yn yr Inffirmari. Da deall bod Nerys Roberts-Jones (Llansannan), Robert Henry Roberts (Cefn Meiriadog) ac Eirianwen Martin (Nantglyn) wedi cael dychwelyd adre o'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth, fel ag y mae Morfudd Williams (Llanfair) a dreuliodd ychydig ddyddiau yn yr ysbyty yn ystod yr wythnos. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y bydd pob un ohonynt, ac eraill o'r Ofalaeth, yn profi Duw yn dda ac yn agos y dyddiau hyn.
- Llongyfarchiadau i Owain Roberts (Cefn Berain) a Nia ar enedigaeth Anni Clwyd; i Gwenan Williams (Henllan) a Jonathon ar enedigaeth Mared Ann; ac i Llyr Williams (Henllan) a Cheryl ar eu dyweddiad. Llawnhawn gyda hwy yn naioni Duw, a dymunwn yn dda iddynt oll.

Chwaraeon 110%

Os nad ydach chi sydd ym mlynnyddoedd 9-13 wedi rhoi eich enw i'r hyfforddiant gyda Garin Jenkins, Aled Myrddin, Elinor Owen a Lisa Johnson yng Ngholeg y Bala dydd Mawrth a/neu dydd Mercher nesaf, Chwefror 22ain -23ain, gwnewch hynny ar fyrder, os gwelwch yn dda, trwy ffonio Steff neu Gwenno ar (01678) 520565.

Darganfod Cristnogaeth

Fe sylwch fod cyfres newydd yn cychwyn yng Nghapel Cefn Berain **nos lau nesaf** am 7.30 o dan arweiniad Elen Elias a Haf Tan y Graig. Croeso i bwy bynnag sy'n dymuno darganfod mwy am Gristnogaeth i'r gyfres 6 wythnos yma.

Dosbarth Derby

Bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal yn Ffestri Capel Groes **bore dydd Sul, Mawrth 6^{ed} o 11:30 – 12:30**. Diolch i bawb sydd eisoes wedi ymateb. Os oes unrhyw un arall am ymuno, a wnewch chi gysylltu â Mair (870632) mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda?

Gwyl Gristnogol Llanw - Ebrill 25 - 29

Os oes digon o ddiddordeb, byddwn yn trefnu bws mini i fynd i Llanw am ddwy noson. Y nôd yw cynnig trafnidiaeth a llety ar gyfer y bobl hynny sy'n dymuno mynd i'r wyl ond sydd ddim yn gallu mynd eu hunain nac aros mewn carafan. Byddwn yn defnyddio llety Gwely a Brecwast yng Nghei Newydd ac yn eich cludo rhwng y pentref a'r wyl yn y bws mini. Bydd y pris yn dibynnu ar y llety a nifer y bobl sy'n mynd, ond dim ond lle i 16 sydd ar y bws mini. Felly, os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ag Elinor (870534).

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 20^{fed} Chwefror 2011

Cyfres newydd 'Darganfod Cristnogaeth' yn cychwyn nos lau nesaf. Mwy o fanylion ar y cefn.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Dyma ddanfon gair ar ran fy ngweinidog, gan hyderu ei fod yntau yn profi Duw yn dda yn Mizoram, ac yn gweddïo y bydd Duw yn ei fendithio ef, fel ninnau ar Ddydd yr Arglwydd.

Wel, mae nifer ohonoch wedi bod yn holi sut mae pethau yn mynd gyda'r swydd newydd yma. Dyma gyfle i ddweud fy mod yn dechrau cael ychydig o afael ar y fusnes, ac yn gwneud tipyn o deithio, cwrdd ag amryw byd o bobl newydd, a chael gwybod tipyn am brosiectau gwahanol y mae'r eglwys yn gweithio arnynt. Rwyf hefyd yn dod i arfer â gorfod cysgu mewn gwelyau amrywiol ar hyd a lled Cymru ac ymhellach!!!

Meddyliwch, amser hyn yr wythnos ddiwethaf yr oeddwn yn cysgu mewn gwesty yn Durham o bob man yn y byd. D'oeddwn erioed wedi bod yn y fath le o'r blaen, ac roedd y daith ar y trê'n yn bell a hir!!! Ond, yn y cwbl, roedd cwmni Bryn Williams ac eraill yn esmwythau ac yn gwneud y cwbl yn ddigon derbyniol.

Wedyn, wythnos yma, ymweliadau â phrosiectau yn Wrecsam, yr Wyddgrug, y Rhyl a Chaernarfon, a chyfarfod gydag unigolion ym Birmingham a Bala, ac felly ymlaen. Digon o deithio, a digon o amrywiaeth. Mae'r car wedi dod bellach yn swyddfa symudol, a bydd popeth yn casglu'n bentryrau ar y seddi, ac wedyn daw'r dasg o gloddio drwy'r cyfan i geisio dod o hyd i'r darn papur ar gyfer y cyfarfod nesaf. Os y bydd pethau yn mynd ymlaen fel hyn, mi fydd angen car tebyg i un Aneurin i gadw'r holl bapurau sydd yn crynhoi!

Ac yna, wedi'r cwbl i gyd, cael dod yn ôl i Llansannan, ac adre i Heulfryn. Un fantais, unwaith y byddaf wedi cyrraedd, mae'r gwaith yn aros yn y car, ac nid yw'r papurau yn disgwyl imi fynd allan ar fin nos, a fydd neb o'r swyddfa yn ffonio chwaith. Dwi'n ail-ddarganfod teledu min nos!!! Ond, a dyma'r peth da – dw'i wedi sylweddoli fwy-fwy gwerth cael dod adre, ac ar yr un pryd, o ganol prysurdeb, y gallu i adael y gwaith ar ben y drws. Tipyn o beth, er cofiwch, nid yw Sarah wedi gweld y gwahaniaeth fel rhywbeth amlwg hyd yn hyn!

Wrth feddwl am y pethau i gyd, mae'n debyg fod fy mhatrwm gwaith bellach yn debycach i fwyafrif y boblogaeth. Oriau gwaith ac oriau hamdden. Yn y Beibl, mae'r ddau yn gymesur o ran eu gwerth, o ran eu pwysigrwydd. Mae Duw yn gweithio, mae Duw yn gorffwys. Gweithiodd Iesu, gorffwysodd Iesu. Mae'n falans angenrheidiol i'r corff, ac i'r ysbryd. Mae'n falans sydd angen i mi gael, i ddiogelu fy iechyd corfforol, fel fy iechyd ysbrydol.

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd **Andras Iago** yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa. Edrychwn ymlaen hefyd i groesawu cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth i'r oedfa gan mai dymuniad Andras yw trosglwyddo'i ymgeisyddiaeth i'r weinidogaeth i Henaduriaeth Dyffryn Clwyd.

Llun Grwpiau **Adnabod** Aneurin, Elen a Mair yn cyfarfod am 8.00

Mawrth **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.

Iau Cyfres newydd '**Darganfod Cristnogaeth**' (6 wythnos) yng Nghefn Berain am 7.30.

Sadwrn **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Ngholeg y Bala. Mwy o fanylion ar y wefan.

Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd **Rhodri Glyn** yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Bydd Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a chynhelir gwasanaeth teuluol dan ofal Teulu Tan y Graig yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Sul nesaf Bydd Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac oedfa dan arweiniad y Parch Tudur Rowlands yng Nghapel Hyfrydle, Llanfair am 3.15. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

Sul yma Bydd Cyfarfod Gweddi am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Iau Cinio'r Jangl am 12.00.

Sul nesaf Bydd y Parch Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cyd-redeg. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwirydd ym Mheniel am 10.00 a'r Ysgol Sul am 2.00.

Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Bydd oedfa wedi ei threfnu i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Sul nesaf Bydd y Parch Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Henllan a Groes

Sul yma Oedfa Thema fydd yn Henllan am 10.00 a'r Parch Bernant Hughes yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Sul nesaf Bydd oedfa wedi ei threfnu i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Cynhelir gwasanaeth dan ofal John Owens yn Llanefydd am 2.00 a Chyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Sul nesaf Bydd y Parch Eifion G. Jones yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau